**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw: Aled Roberts

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

A yw hwn yn ymateb ar y cyd ar ran eich sefydliad / grŵp o sefydliadau? Os felly, rhowch fanylion: /

Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn: post@cyg-wlc.cymru / 0345 6033 221

Cyfeiriad: Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| Pam mae angen y Bil | |
| **Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno â'r rhesymau a nodir ynghylch yr angen am y Bil? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr achos o blaid newid? | |
| Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Partneriaeth gymdeithasol | |
| **Cwestiwn 2:** Beth yw'ch barn ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn y Bil drafft? | |
| **Cwestiwn 3:** Beth yw'ch barn ar yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a restrir ac a ddiffinnir yn y tabl o dan yr adran hon? | |
| **Cwestiwn 4:** Beth yw'ch barn ar y rhestr o gyrff y mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil drafft yn berthnasol iddynt? A ddylai'r rhestr o gyrff fod yn ehangach na'r rheini y mae'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt? | Hoffem bwysleisio, ar ddechrau'n hymateb, mai o safbwynt polisi yn hytrach nag o safbwynt cyflogwr yr ydym yn cyfrannu at yr ymgynghoriad hwn.<br><br>Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar nifer o gyrff, trwy'r safonau, i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Dylid sicrhau bod y cyrff hynny a fydd hefyd yn ddarostyngedig i'r Bil arfaethedig yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau dan y safonau.<br><br>Anogwn y Llywodraeth i fanteisio ar y cyfle a gynigir gan y Bil i hyrwyddo a |

| | |
|---|---|
| | hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y trydydd sector a'r sector preifat, nad ydynt o fewn cwmpas y Mesur.<br><br>Ar fater cysylltiedig, dylid ystyried sut i sicrhau y bydd y Bil yn cwmpasu cyrff newydd perthnasol a sefydlir yn y dyfodol. |
| Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Gwaith teg | |
| **Cwestiwn 5:** Beth yw'ch barn ar y dyletswyddau arfaethedig a roddir ar Weinidogion Cymru o ran amcanion gwaith teg? | Nodwn y disgwylir i ddiffiniad y Bil o waith teg gael ei fframio gan ddiffiniad adroddiad *Gwaith Teg Cymru* (2019), lle disgrifia'r Comisiwn Gwaith Teg chwe phrif nodwedd. O'r rhain, hoffem dynnu sylw yn benodol at lais y cyflogai; y cyfle i dyfu ac i gamu ymlaen; amgylchedd gwaith cynhwysol a hawliau cyfreithiol yn cael eu parchu. Mae sicrhau'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg neu i ennill sgiliau iaith newydd yn hollbwysig ar gyfer gwaith teg.<br><br>Mae hyn eisoes yn ofynnol i'r sefydliadau hynny sy'n ddarostyngedig i'r safonau gweithredu perthnasol. Mae'n adlewyrchu'r egwyddorion a sefydlir gan Fesur y Gymraeg, bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru a bod gan bobl ryddid i'w defnyddio. Mae hefyd yn cefnogi pwyslais y Llywodraeth ar y gweithle o fewn strategaeth *Cymraeg 2050*. Dylid cyfeirio'n glir at y Gymraeg o fewn y Bil. |
| **Cwestiwn 6:** Beth yw'ch barn ar y prif heriau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer anelu at waith teg a'i hyrwyddo? | |
| **Cwestiwn 7:** A oes gennych chi farn ar sut mae fframio diffiniad cyfreithiol ar gyfer gwaith teg sy'n bodloni cyfyngiadau ein cymhwysedd deddfwriaethol ac yn gwneud cynnydd o ran ein huchelgeisiau ar gyfer 'Gwaith Teg yng Nghymru'? | |
| **Cwestiwn 8:** Yn ogystal â'r hyn a nodir yn y Bil drafft, pa ddulliau eraill allai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i hyrwyddo a chyflawni gwaith teg? | |

| | |
|---|---|
| Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol | |
| **Cwestiwn 9:** Beth yw'ch safbwyntiau cyffredinol ar y darpariaethau a'r trothwyon a nodir ynghylch y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys y categorïau a restrir yn y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol? | Cytunwn â'r nod o sicrhau gwelliannau trwy'r cymalau enghreifftiol o ran llesiant, ac yn arbennig o safbwynt diwylliannol. Nodwn Gategori 4: Darparu hyfforddiant priodol i weithwyr. Ceir cyfle trwy'r categori hwn i gyfleu pwysigrwydd cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i weithwyr. Mae rhai sefydliadau eisoes o dan ddyletswydd i ddarparu hyfforddiant o'r math dan ofynion safonau'r Gymraeg. |
| **Cwestiwn 10:** Beth yw'ch barn ar y mesurau posibl, y tu allan i'r rheini a nodir, y byddai modd eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol? | |
| **Cwestiwn 11:** Beth yw'ch barn ar y tabl o awdurdodau contractio uchod sy'n ymwneud â'r dyletswyddau o ran caffael cymdeithasol gyfrifol a'r gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (Cod Dwy-Haen)? | Gweler yr ymateb i Gwestiwn 4 uchod. Hoffem wybod a oes bwriad cynnwys y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, os cânt eu galluogi i gyflogi staff, dal cyllidebau a chomisiynu a darparu yn rhanbarthol, fel y cynigir ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth, *Ailgydbwyso gofal a chymorth* (2021).<br><br>Yng nghyd-destun mentrau rhanbarthol, anogwn y Llywodraeth i ystyried yn ofalus rôl cyrff eraill sy'n gweithio'n drawsffiniol, megis y cyd-bwyllgorau corfforedig sy'n cael eu creu yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |
| **Cwestiwn 12:** A ddylid cadw'r rhestr bresennol o awdurdodau contractio sydd wedi'u cynnwys yn y Cod y Gweithlu Dwy-Haen neu a ddylid cysoni hyn â gweddill y dyletswyddau caffael? A ddylid gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r ffordd mae'r Cod yn gweithredu? | |
| **Cwestiwn 13:** Sut gellir cyflawni gwell diwydrwydd dyladwy wrth reoli cadwyni cyflenwi ym maes adeiladu, gan gadw'r costau mor isel â phosibl, yn enwedig ar gyfer contractwyr llai mewn cadwyni cyflenwi? | |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 14:** Beth yw'ch barn ar y posibilrwydd o ehangu'r ddyletswydd rheoli contractau – o ran y prosesau gwneud cais, cynnal a chadw a monitro – drwy'r gadwyn gyflenwi o gymalau cymdeithasol gyfrifol i sectorau eraill y tu hwnt i adeiladu (er enghraifft, gofal cymdeithasol) yn y dyfodol? | |
| Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol | |
| **Cwestiwn 15:** Beth yw'ch barn ar y darpariaethau a nodir yn y Bil drafft ynghylch:<br><br>a. Aelodaeth o'r Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol;<br><br>b. Y broses enwebu arfaethedig? | Nid yw'r Bil drafft yn gofyn am ddealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan aelodau'r Cyngor. Dylid cynnwys y gofyniad hwn.<br><br>Bwriedir creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol. Nid oes eglurder fodd bynnag ynghylch llywodraethiant a gweinyddiaeth y Cyngor ac, yn dilyn o hynny, sut y bydd y Cyngor arfaethedig yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.<br><br>Dylid ystyried yn gynnar yn y broses ddeddfu sut y bydd modd rhoi sicrwydd y bydd y corff yn cael ei ychwanegu at Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu dylid ystyried dulliau cyfreithiol eraill i alluogi Gweinidogion Cymru i'w wneud yn gymwys i'r gyfundrefn safonau wrth ddeddfu.<br><br>Rydym o'r farn fod rhaid rhoi rhagor o eglurder ac arweiniad ynghylch statws y corff yn nghyd-destun Mesur y Gymraeg a pha gamau ymarferol a gymerir er mwyn rhoi sicrwydd o safbwynt y corff yn defnyddio'r Gymraeg ac yn ystyried yr iaith o fewn cwmpas ei waith. |
| **Cwestiwn 16:** Beth yw'ch barn ar y cynigion ynghylch sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i weithrediadau a'i is-grwpiau? | |
| **Cwestiwn 17:** Beth yw'ch barn ar y system partneriaeth gymdeithasol a amlinellir yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o ran arwain y system a'r cysylltiadau | |

| | |
|---|---|
| rhwng y gwahanol lefelau o bartneriaeth gymdeithasol. | |
| Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd | |
| **Cwestiwn 18:** O ran y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a ddylid datblygu mecanwaith gwella a chydymffurfio i sicrhau bod yr holl gyrff yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn cyfrannu ar y cyd at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol? | |
| **Cwestiwn 19:** A ddylid sefydlu mecanwaith dyfarnu ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar lefel genedlaethol er mwyn uwchgyfeirio unrhyw achosion o fethu cytuno ar lefel sectorau? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol? | |
| **Cwestiwn 20:** Beth yw'ch barn ar y mesurau gorfodi a chydymffurfio arfaethedig yn y Bil drafft ynglŷn â rheoli contractau a chaffael cymdeithasol gyfrifol? Pa fesurau eraill y byddai modd eu defnyddio? A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut gallai gwahanol fesurau gorfodi a chydymffurfio weithio'n ymarferol? | |
| Cydraddoldeb ac effeithiau | |
| **Cwestiwn 21:** A ydych yn cytuno â'r effeithiau a amlinellir yn yr adran hon? A oes goblygiadau anfwriadol posibl i grwpiau penodol y dylid eu hystyried? | |
| **Cwestiwn 22:** O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ydych yn cytuno â'r asesiad o'r costau a'r buddion tebygol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil drafft? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pa elfen(nau) penodol rydych yn anghytuno â nhw a pham. | |
| **Cwestiwn 23:** A oes gennych dystiolaeth ychwanegol neu wahanol a allai helpu i | |

| | |
|---|---|
| ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol? | |
| **Cwestiwn 24:** Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau y byddai'r hyn a gynigir yn y Bil drafft yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol? | |
| **Cwestiwn 25:** Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig yn y Bil drafft gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Trafodir yn y Ddogfen Ymgynghori argymhellion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad i'r Papur Gwyn, *Cymru sy'n Fwy Cyfartal*. Roedd rhai yn ymwneud â sut y gallai darpariaethau caffael nodi'n benodol beth fydd yn ofynnol o ran darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg. Eglura'r Ddogfen Ymgynghori y caiff y materion hyn eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu'r canllawiau statudol sy'n ymwneud â meysydd polisi'r Bil drafft. Byddem yn croesawu trafodaeth bellach am y mater hwn.<br><br>Yn dilyn o'n hymateb i Gwestiwn 15 uchod, rydym o'r farn y byddai galluogi'r Comisiynydd i osod safonau'r Gymraeg ar y corff newydd maes o law yn galluogi gosod safonau yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ac ystyried y Gymraeg o fewn cwmpas ei waith. Ystyriwn ei fod yn hanfodol, fel y nodwyd uchod, fod cyrff newydd yn cael eu creu gan ystyried Mesur y Gymraeg a'i rôl yn gwarchod hawliau defnyddwyr y Gymraeg, a bod statws y Gymraeg yn cael safle blaenllaw ym mhenderfyniadau corff statudol o'r fath.<br><br>Nodir yn y Ddogfen Ymgynghori fod hyrwyddo'r Gymraeg yn enghraifft o'r hyn y mae angen ei ystyried yng nghyd-destun llesiant diwylliannol yn y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol. Cyfeirir yn y Bil drafft at nodau |

| | |
|---|---|
| | caffael cymdeithasol gyfrifol sy'n cyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r nod gwaith teg a osodir gan y Bil. Mae'r Ddeddf Llesiant yn cynnwys y nod 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' a chytunaf y dylai'r nod hwn danategu'r egwyddorion caffael a gyflwynir yn y Bil. Fel y nodwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 5 uchod, dylid cyfeirio'n glir at y Gymraeg o fewn y Bil yng nghyd-destun gwaith teg. Gall hyn gyfrannu at y nod o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Cwestiwn 26:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi. | |